



## Atyniadau'r Pererinion

**Mae eglwys Sant Pedrog o fewn taflad carreg i Blas Glyn y Weddw. Byddai'r pererinion ar eu taith o'r dwyrain a'r de i Ynys Enlli yn siwr o alw yn yr eglwys i weld Picell Pedrog cyn mynd ymlaen i gyfeiriad Llanengan. Ar eu ffordd byddai modd ymweld â Ffynnon Bedrog neu Ffynnon Fyw ym Mynytho.**

Byddai'r pererinion hyn yn cyfarfod yn ardal Aberdaron gyda'r rhai ddeuai o'r gogledd o gyfeiriad Clynnog Fawr. Byddent yn cymryd seibiant ym mhen draw Llŷn cyn croesi'r Swnt peryglus i Ynys Enlli ac yn amlach na pheidio yn aros am dywydd ffafriol i hwyllo. Ond byddai digon o atyniadau yn yr ardal i ddyfnhau eu profiadau ysbrydol cyn cyrraedd Enlli. Câl Ynys Enlli ei hystyried yn Rhufain Cymru ac roedd tri ymweliad ag Enlli'n gyfystyr ag un ymweliad â Rhufain.

Roedd y pererinion cynharaf wedi darganfod lle cyn arbennig i encilio iddo ar lethrau mynydd Anelog a sefydlon nhw glàs yno. Dyma, mae'n debyg, leoliad Capel Anelog (SH 15592742) un o gapeli coll cynnar Llŷn. Yno cafodd Cerrig Anelog eu darganfod sy'n dystiolaeth fod Cristnogion yn yr ardal yn y 5/6edG. Ar un ohonynt caiff Senacus, yr offeiriad, a llu o'i gyfeillion eu coffáu ac efallai fod amryw o'r pererinion bregus a fethodd gwblhau'r daith i Enlli yn eu plith.

O gyfeiriad mynydd Anelog llifa afon Saint i Aberdaron. Byddai cyfle i yfed o ddŵr meddyginiaethol Ffynnon Saint

(SH 16542671) a myfyrio wrth Allor Hywyn. Hon ydi'r garreg fawr wastad ger y ffynnon a gafodd ei chwalu wrth godi'r bont gerllaw.

Rhaid fyddai ymweld â Ffynnon Fair (SH 13982519) ar fin Swnt Enlli yn Uwchmynydd. Yno byddent yn craffu am olion carnau ceffyl Mair ac olion ei bysedd yn y creigiau cyn yfed o'i dŵr sanctaidd cyn dringo'n ôl i fyny Grisiau Mair.

Ar y gwastad rhwng mynydd Mawr a Mynydd Gwyddel roedd Capel Mair (SH 13922534. Llun:), ac yno câi cyrff y meirw eu cadw wrth ddisgwyl am dywydd ffafriol i groesi i'w claddu yn Enlli.

Roedd llety i'w gael yn y Gegin Fawr yn Aberdaron neu yn Cwrt, Uwchmynydd – fferm oedd yn osgoi talu'r degwm am ei bod yn lletya pererinion.

Ar dywydd teg byddai cychod yn aros amdanynt ym Mhorth Meudwy (SH 16302550). Mae'r enw hwn a Bodermyd gerllaw yn cyfeirio at feudwyaeth y pererin.



## Pererindota yn Llŷn



Nid y man cychwyn ond profiadau'r daith a phen y siwrnai sy'n bwysig i'r pererin.

Arferai'r pererinion alw yn Eglwys Llanbedrog a chael cyfle i weld picell y sant, sef Pedrog yno.

Roedd pererindota yn bod cyn y cyfnod Cristnogol a gallwn ddyfalu y byddai pobl yn talu gwrogaeth i benaethiaid a gladdwyd mewn cromlechi, carneddi ac o bosib o dan feini hirion. Byddent yn ymweld ar adegau penodol o'r flwyddyn, yn arbennig ar hirddydd haf a symudiad arwyddocaol cytser.

Roedd arbenigrwydd meddyginiaethol neu ddawn broffwydol yn perthyn i ddŵr ffynhonnau neilltuol, a chred neu ofergoel yn peri i'r safle ddatblygu sancteiddrwydd.

O dipyn i beth fel y lledaenodd Cristnogaeth mabwysiadodd y Cristnogion cynnar arferion a thraddodiadau'r gymuned baganaidd.

Roedd ofergoel, chwedl, ofn a diniweidrwydd yn rheoli, ac ansicrwydd a breuder bywyd yn ddychryn. Credent mai cosb am bechod oedd salwch ac anabledd.

Ond daeth yr offeiriaid Cristnogol, y 'seintiau cynnar' i'w plith a chynnig gobai. Wrth ymweld â manau penodol ac yfed dŵr y ffynnon sanctaidd daethant i gredu y caent wella'u hafiechydon a maddeuant am eu pechodau. Os cosbent eu hunain yn ystod y daith a derbyn penyd gan offeiriad byddai hynny'n hyrwyddo'r adferiad.

Roedd yn haws cael trefn ar eu bywydau wrth dorri cysylltiad â'u cymdeithas a neilltuo am gyfnod i weddio.

Dyna oedd atyniad yr ynys ar y gorwel welodd Cadfan o'i gell yn Nhywyn, Meirionnydd a llwyddo i berswadio'i ddilynwyr i encilio i Ynys Enlli. Buont yn cenhadu ar eu taith a sefydlu llannau yma ac acw, yn amlach na pheidio o fewn cyraedd ffynhonnau.

Datblygodd clas fynachaidd ar lethrau Mynydd Anelog a buan y daeth pendraw Llŷn yn dynfa i offeiriad ac y datblygodd sancteiddrwydd Ynys Enlli.

Lledaenodd dylanwad dilynwyr Cadfan y tu allan i Llŷn a daeth Beuno a'i ddilynwyr yntau a dylanwadu'n drwm ar gymunedau Llŷn.

Mae'r eglwysi a'u saint, y ffynhonnau sanctaidd ac olion Cristnogaeth gynnar welir yn Llŷn heddiw yn tystio fod y pererinion yma yn yn canrifoedd cynnar a'u hanes yn parhau i gyfoethogi'r ardal

## Llwybr y Pererinion – De



Daeth Cadfan o Lydaw yn y 6edG a sefydlu eglwys yn Nhywyn, Meirionnydd. Gydag ef daeth nifer o ddilynwyr, fel Cynon, Padarn, Lleuddad, Gwyndaf, Tanwg, Maelrhys.

Efallai i Gadfan sylwi ar ynys ar y gorwel a'i gweld fel lle delfrydol i encilio iddi. Ynys Enlli oedd honno ac wedi pererindota tuag ati sefydlodd gymuned o fynachod sydd wedi parhau'n gyrchfan i bererinion hyd heddiw.

Mi fyddai'r pererinion cynnar wedi dilyn arfordir bae Ceredigion.

Sefydlodd un o'i ddilynwyr, Tanwg gell a ddatblygodd i fod yn Llandanwg. Roedd yma gapel gorffwys cyn cario'r cyrff dros y môr i Ynys Enlli.

Byddai'r pererinion wedyn yn ymweld ag Ynyscynhaearn, a oedd yn ynys y pryd hynny, wedi'i sefydlu gan Cynhaearn, un o ddigyblion Beuno.

Yn Llanystumdwy roedd delw enwog o'r Forwyn Fair.

Byddai rhai am ymweld â Ffynnon Gybi, un o'r ffynhonnau meddyginiaethol enwocaf cyn aros am ysbaid yn Abererch.

Byddent wedi cadw o'r gors lle mae Pwllheli nawr a mynd trwy Deneio ar dir uwch cyn galw yn Eglwys Penrhos a chael croeso a seibiant ym Mhenyberth.

Yna galwent yn Llanbedrog cyn mynd am Forfa Neigwl lle roedd Llangian ac yn arbennig Llanengan. Yma byddent yn coffáu Engan (Einion), brenin Llŷn a roddodd Ynys Enlli i Cadfan i sefydlu encilfa arni.


Y llwybr byrraf yn awr oedd mynd dros Fynydd Rhiw a



chael galw yn yr eglwys yno ac yn Ffynhonnau Aeliw a Saint cyn disgyn i Eglwys Llanfaelrhys ac ymlaen i Aberdaron.

Ond byddai dewis arall ym Morfa Neigwl, sef mynd heibio Eglwys Llandygnwng a Botwnnog, ymlaen trwy Fryn croes ac i Aberdaron. Yn amlach na pheidio byddai rhaid iddynt aros am dywydd teg i groesi'r Swnt ond roedd digon o atyniadau yn yr ardal i'w cadw'n ddiidig.

## Eglwys Llangian (SH 29562895)



**Cyfarwyddiadau:** *Yng nghanol pentef Llangian ar y ffordd 'Botwnnog – Llanengan' neu i lawr y rhiw o ffordd 'Mynytho – Abersoch'.*

Roedd Llangian yn bod fel 'Llangian' yn 1291 ac efallai fel 'Lanekiant' ym Mhrisiad Norwich 1254.

Mae rhan orllewinol yr adeilad y dyddio 'nôl i'r cyfnod hwnnw ond gweddill y corff hir, cul o'r 15fedG.

Cafodd cell ei sefydlu yma gan y seintiau Peris (Llanberis) a'i was Cian. Wyddon ni ddim mwy amdano heblaw bod yr enw yn gyffredin ymhlith y Gwyddelod.

Mae'r garreg goffa i Melus yn nodwedd arbennig yn y fynwent sy'n cadarnhau bod yma weithgaredd crefyddol yn y 5-6edG. er nad oes gwybodaeth pellach am Melus na'i fod yn feddyg.

Yma mae claddfa teulu Edwards, Nanhoron.

Gwnaed gwaith adfer ar yr eglwys gan y pensaer Henry Kennedy yng nghanol y 19edG.

Mae'r eglwys yn ganolbwynt i bentref enillodd wobrau pentrefi taclusaf.

Mae Mynytho ym mhlwyf Llangian ac yno yn ogystal â Ffynnon Arian a Ffynnon Sarff mae Ffynnon Fyw yn ffynnon bwysig iawn yn ei dydd ac wedi'i hadfer gan AHNE Llŷn.

## Ffynnon Fyw, Mynytho

(SH 30913088)

**Cyfarwyddiadau:** *Dilynwch B4413 (Llanbedrog – Aberdaron) ac yng nghanol pentref Mynytho ewch ymlaen tua'r de. (Arwydd – 2¾). Chwith (Arwydd – Llwybr Cyhoeddus) a heibio Brynhyfryd. De a thu cefn i Gapel Horeb.*

Roedd hon yn un o ffynhonnau meddyginiaethol pwysicaf Llŷn ac yn un lle y tyrrai pobl yr ardal i gynnal chwaraeon o'i chwmpas ar Suliau yn mis Awst.

Mae yma ddau faddon. Byddai'r claf yn yfed o'r lleiaf ac yn ymolchi yn y mwyaf. Roeddent o fewn yr adeilad a byddai ceidwad yn gofalu amdani ac yn derbyn offrwm fel tâl am ei wasanaeth.

Roedd y ffynnon a'r eglwys wedi'u cysegru i Cil Ferthyr. Byddai'r pererinion yn sicr yn galw heibio a'i henw gwreiddiol oedd Ffynnon Dduw.

## Eglwys Llanengan (SH 294270)



**Cyfarwyddiadau:** *Yng nghanol pentref Llanengan ar y ffordd gul o Abersoch i Langian.*

Einion brenin Llŷn sefydlodd Eglwys yn Llanengan ac ef roddodd dir ar Ynys Enlli i Cadfan sefydlu ei abaty yno.

Roedd yn fangre bwysig ar Lwybr y Pererinion o'r dwyrain a'r de.

Ym Mhrisiad Norwich (1254) mae cyfeiriad at 'Lanekiant' a sôn am 'Llaneign' yn 1291 – Llanengan mae'n debyg.

Roedd Einion yn frenin dylanwadol iawn.

Canodd Hywel Rheinallt gywydd mawl iddo yn y 15fedG. ac roedd delw wedi'i goreuro ohono'n gwisgo coron yn yr eglwys lle cafodd ei gladdu.

Mae'r eglwys yn eang a hardd. Rhan gorllewinol y mur gogleddol ydi'r rhan hynaf – o'r canoloesoedd, a gweddill muriau'r corff a'r ystlys wedi'u codi ar gyfnodau gwahanol yn y 16edG.



Cafodd y tŵr castellog ei godi yn 1534 a daeth clychau abaty Enlli a sgrin hardd yma wedi diddymu'r mynachlogydd

Yn yr eglwys mae Cyff Engan – cist o foncyff coeden i dderbyn offrwm gan bererinion a phlwyfolion. Mae tri chlo ar y gist ac allwedd i'r person a'r warden.

Yn ymyl y fynwent, yng ngardd Tan y Fynwent mae Ffynnon Engan (SH 29312707) Caiff ei gwarchod ac mae gris o gerrig yn mynd i lawr at y dŵr a gâi ei ddefnyddio i fedyddio. Câi gwrthiau eu cyflawni yma a byddent yn gadael offrwm yng Nghyff Engan.

Ar Fynydd Cilan mae carreg ar ei gwastad â phant ynddi – Maen March Engan. Dyma ôl ô carn march y brenin Engan. Câi'r dŵr o'r carn ei ddefnyddio i wella afiechydon.

Mae Ogo' Engan yn yr ardal ac enwau megis Cae Engan, Tŷ Engan yn Llŷn ac ardal Brynengan yn Eifionydd sy'n codi'r cwestiwn oes cysylltiad rhyngddynt â brenin dylanwadol Llŷn.

## Eglwys Llanbedrog (SH29562895)



**Cyfarwyddiadau:** *Dilynwch yr A499 (Pwllheli – Abersoch). Yn Llanbedrog trowch tua'r arfordir (de), gan ddilyn arwyddion 'Plas Glyn y Weddw' ger yr orsaf betrol. Mae'r eglwys ar y dde.*

Dwy eglwys sefydlodd Pedrog yng Nghymru, un yn Llanbedrog a'r llall yn St Petrox, de Penfro. Un o'r creiriau arferai fod yn yr eglwys oedd ei waywffon.

Ym Mhrisiad Norwich (1254) mae cyfeiriad at 'Lanredauc'.

Mae corff yr eglwys wedi'i chodi yn y 13yddG. a'r gangell yn dyddio o'r 16edG. – yr un cyfnod â'r sgrin sy'n eu gwahanu. Cafodd hon ei chuddio ar y traeth yn ystod y Rhyfel Cartref pan ddefnyddiai Sieffre Parry a'i filwyr yr eglwys fel stabl i geffylau'r Seneddwyr. Mae darnau gwydr o'r ffenestri gafodd eu torri bryd hynny wedi eu casglu i ailgreu ffenestr liwgar yng ngorllewin yr eglwys.

Yn 1827 cafodd yr adeilad ei atgyweirio drwy ailgodi'r

waliau, bu atgyweirio helaeth yn 1865 ac adeiladwyd y tŵr a'i ail-doi yn 1895. Mae'r dyddiadau hyn ar y talcen yn y tŵr.

Bu cysylltiad clos rhwng Teulu Jones Parry, Madrun, (Glyn y Weddw'n ddiweddarach) â'r eglwys. Cyflwynon nhw roddion i'r eglwys a chaiff y cwpan cymun ei ddefnyddio heddiw.

Mae cerrig beddau aelodau'r teulu yn y fynwent.

Roedd Ffynnon Bedrog (SH 3250032190) bellter o eglwys y plwyf. Gan fod yr ardal wedi gordyfu ac yn wlyb nid yw ei hunion leoliad yn hysbys. Roedd yn ffynnon feddyginiaethol bwysig wedi'i hadeiladu â cherrig ac yng nghanol y 19yddG. byddai'n denu cleifion yn dioddef o bob math o anhwylderau. Wrth ei chlirio cawsant lestr yn llawn o binnau – tystiolaeth y câi pinnau eu hoffrymu wrth gesio ennill gwellhad.

Gallai'r ffynnon ddatrys lladrad. Rhaid fyddai tystio ffydd ynddi, penlinio, rhoi bara brown yn y dŵr a sibrdw enwau'r lladron. Pan gâi ei enwi byddai'r bara'n suddo.

## Eglwys Llanfihangel Bachellaeth (SH30423428)



**Cyfarwyddiadau:** *Mae'r eglwys ar lethr dwyreiniol Garn Saethon. Dilynwch y ffordd gul i'r de oddi ar B4415 (Efailnewydd – Nanhoron). Mae'r gyffordd 2.75 km i'r gorllewin o Rydyclafdy.*

Mae cerdd gan Cynan yn cychwyn:

*'Yn Llanfihangel Bachellaeth*

*Mae'r lle tawela 'ngwlad Llŷn,'*

Oddi yma mae golygfa ryfeddol dros ddwyrain Llŷn, Eifionydd, Eryri a mynyddoedd Meirionnydd a Bae Ceredigion.

Gyda dyfodiad y Normaniaid i Ynysoedd Prydain byddai'r mynachod yn ailenwi eglwysi a'u sancteiddio i Fair neu Pedr ac yma i Fihangel.

Mae'n adeilad syml, petryal â grisiau allanol yn arwain i mewn i oriel.



Cafodd ei hadeiladu yn niwedd 17ilG. ond nid ar safle'r eglwys flaenorol. Roedd honno ar lethrau Garn Fadryn yn Cae Hen Fynwent (Caerau Uchaf) lle mae olion claddu.

Cafodd yr adeilad ei atgyweirio yn niwedd y 19yddG. Mae'r dyddiad 1847 ar yr oriel ac 1888 ar rai seddau.

Pan ymwelodd Edmund Hyde Hall â Llanfihangel Bachellaeth yn 1801 mae'n canmol cyflwr yr adeilad, canmoliaeth na dderbyniodd amryw o eglwysi eraill.

Mae'r eglwys wedi'i chau ers blynyddoedd.

## Ffynhonnau Sanctaidd



*Ffynnon Fyw, Mynytho*

Byddai'r pererinion ar eu ffordd i Ynys Enlli yn sicr o fod wedi galw yn Ffynnon Pedrog, Llanbedrog ac yn Ffynnon Engan, Llanengan neu yn Ffynnon Fyw, Mynytho.

Mae nifer helaeth o'r ffynhonnau yn Llŷn wedi'u lleoli ar Lwybrau Pererinion Enlli sy'n arwain i ben daw Llŷn. Roedd ganddynt ffydd yn eu gallu meddyginiaethol a hawdd dychmygu'r pereinion yn llusgo'n flinderus yn eu gwendid tuag atynt. Gwyddom am rai o'r ffynhonnau ond aeth cyfrinachau'r lleill ar goll ers canrifoedd.

Roedd y ffynhonnau'n bodoli cyn dyfod Cristnogaeth a chyn sefydlu eglwysi hynafol Llŷn. Maent yn dangos ble roedd safleoedd sanctaidd ein cyndadau paganaidd a gweithgareddau Canoloesol.

Roedd cred ein cyndadau yng ngalluoedd dŵr y ffynhonnau wedi ei wau yn dynn wrth eu credoau crefyddol. Ond bellach, o ganlyniad i ddylanwad Piwritaniaeth, ofergoeledd yw hyn. Mewn llythyr, anfonodd Ieuan Llŷn at Dafydd Ddu Eryri yn 1796 gan sôn am Ffynnon Fair, Uwchmynydd a bod ôl carn ceffyl yn y graig.

Roedd defod a seremoni wrth yfed neu ymolchi yn y dŵr yn hanfodol fel yn Ffynnon Gybi a Ffynnon Beuno. Mae meddygon yn deall pam bod Meddyges Bryn Canaid yn Uwchmynydd yn defnyddio dŵr Ffynnon Saint.

Roedd cryn bwysigrwydd i ffynhonnau mewn diwylliannau a gwareiddiad byd eang. Y gred oedd bod duwiau yn byw mewn ffynhonnau a llynnoedd a chaent hwy eu haddoli yn ogystal ag afonydd. O ganlyniad roeddent yn gyrchfan offrymu, yn fannau cynnal seremonïau a'r dŵr yn aml yn feddyginiaethol. 'Duwies Fawr' a 'Duwies Fach' oedd afonydd Dwyfor a Dwyfach.

Mae amrywiaeth ddifyr iawn ymhlith ffynhonnau Llŷn – yn eu henwau, eu natur a'u nodweddion.

## Ffynhonnau Sanctaidd Lleol



Mae cyfeiriadau yn enwau'r ffynhonnau at eu natur a'u cysylltiad â'r pererinion.

### **Ffynnon Engan, Llanengan (SH 29312707)**

***Cyfarwyddiadau: Cerddwch i lawr y llwybr heibio ochr eglwys Llanengan sydd yng nghanol pentref Llanengan ar y ffordd gul o Abersoch i Langian.***

Yn ymyl y fynwent, yng ngardd Tan y Fynwent y mae'r ffynnon hon. Caiff ei gwarchod ac mae gris o gerrig yn mynd i lawr at y dŵr a gâi ei ddefnyddio i fedyddio. Câi gwyrtiau eu cyflawni yma a byddent yn gadael offrwm yng Nghyff Engan.

### **Ffynnon Bedrog, Llanbedrog (SH 32303220)**

***Cyfarwyddiadau: Gellwch fynd weddol agos i'w lleoliad trwy gerdded ar lwybr cyhoeddus o Ysgol Llanbedrog (SH 32603195) i ffordd Llanbedrog – Rhydyclafdy (SH 32033248).***

Roedd hon bellter o eglwys y plwyf. Gan fod yr ardal wedi gordyfu ac yn wlyb nid yw ei hunion leoliad yn hysbys. Roedd yn ffynnon feddyginiaethol bwysig wedi'i hadeiladu â cherrig ac yng nghanol y 19yddG. Byddai'n denu cleifion yn dioddef o bob math o anhwylderau. Wrth ei chlirio cawsant lestr yn llawn o binnau – tystiolaeth y câi pinnau eu hoffrymu wrth gesio ennill gwellhad.



Gallai'r ffynnon ddatrys lladrad. Rhaid fyddai tystio ffydd ynddi, penlinio, rhoi bara brown yn y dŵr a sibrwd enwau'r lladron. Pan gâi ei enwi byddai'r bara'n suddo.

## Ffynnon Fyw, Mynytho (SH 30913088)

**Cyfarwyddiadau: Dilynwch B4413** (Llanbedrog – Aberdaron) ac yng nghanol pentref Mynytho ewch ymlaen tua'r de. (Arwydd – 2¾). Chwith (Arwydd – Llwybr Cyhoeddus) a heibio Brynhyfryd. De a thu cefn i Gapel Horeb.

Roedd hon yn un o ffynhonnau meddyginiaethol pwysicaf Llŷn ac yn un lle y tyrrai pobl yr ardal i gynnal chwaraeon o'i chwmpas ar Suliau yn mis Awst.

Mae yma ddau faddon. Byddai'r claf yn yfed o'r lleiaf ac yn ymolchi yn y mwyaf. Roeddent o fewn yr adeilad a byddai ceidwad yn gofalu amdani ac yn derbyn offrwm fel tâl am ei wasanaeth.

Roedd y ffynnon a'r eglwys wedi'u cysegru i Cil Ferthyr. Byddai'r pererinion yn sicr yn galw heibio a'i henw gwreiddiol oedd Ffynnon Dduw.

Ym Mynytho gallwch ymweld hefyd â **Ffynnon Arian** (SH 30393113) ger Neuadd Mynytho a **Ffynnon Sarff** (SH 29503190) yn Nanhoron. Arferai neidr fyw yn hon. Ar dir fferm Saethon, uwchlaw Dyffryn Nanhoron mae **Ffynnon Saethon** (SH 29203320) oedd yn enwog am allu cynorthwyo pobl ifanc i ddewis cariad.

## Olion Cynnar Cristnogaeth



*Carreg Melus, Llangian*

Wrth brif fynedfa Plas Glyn y Weddw fe welwch ddwy garreg hynod iawn. Fe'u gelwi yn Gerrig Penprys am iddynt cael eu darganfod ar fferm Tir Gwyn, Llannor yn y 19eG.

Gyda'r Rhufeiniad y daeth Cristnogaeth i Brydain erbyn diwedd y 5edG ac mae'r cerrig hyn yn dystiolaeth o hynny.

Mae'n bosibl bod crefydd wedi ymledu i Lŷn trwy genhadaeth y 'seintiau'. Nhw oedd y pererinion cenhadol a fyddai'n crwydro gan sefydlu llannau yma ac acw. Mae'r

ffynhonnau sanctaidd a'r meini Cristnogol cynnar yn dystiolaeth o hynny.

Dydi pob carreg ddim yn coffáu Cristnogion ac roedd yn arferiad hefyd troi safle yn un Cristnogol trwy roi arysgrif a chroes ar garreg o gyfnod cynharach. Mae Nash-Williams yn cyfeirio at y ddau ddsbarth hyn o'r cerrig.

Cerrig beddau yw'r cerrig ag arysgrif arnynt yn coffáu offeiriaid neu wŷr o uchel dras gan amlaf. Yr iaith Lladin neu Ogam a gâi eu defnyddio a llwyddant i daflu cryn oleuni ar fywyd y cenedlaethau Cristnogol Cynnar.

- Cerrig Alitorius a Melitus, Eglwys Llanaelhaearn (SH 38704480)
- Carreg Plas Bach, Ynys Enlli (SH12072214)
- Cerrig Anelog, Eglwys Aberdaron, (SH17332637)
- Cerrig Penprys. Plas Glyn y Weddw, Llanbedrog, (SH 329314)
- Carreg Melus, Eglwys Llangian (SH29562894)
- Carreg Llannor, Eglwys Llannor (SH35393727)

Mae enghreifftiau o gerrig â chroesau arnynt yn brin yn Llŷn. Mae'r rhain o'r 7fed i'r 9fedG pan oedd Cristnogaeth wedi ymledu led-led Cymru.

- Carreg Groes, Eglwys Llanaelhaearn (SH 38704480)
- Carreg Groes, Pistyll (SH 31974182)
- Carreg Hendy, Ynys Enlli (SH12072214)
- Carreg Croes Goch, Llangwnnadr (SH 20883322)

## Carreg Melus, Llangian (SH29562894)



**Cyfarwyddiadau:** Ym mynwent Eglwys Llangian yng nghanol pentref Llangian ar y ffordd rhwng 'Botwnnog a Llanengan' neu i lawr y rhiw o ffordd 'Mynytho i Abersoch'.

Mae'r garreg hon ym mynwent Eglwys Llangian ar ochr ddeheuol yr adeilad.



Carreg rhyw 1m o daldra ydyw gyda rhan fflat ar ei phen ar gyfer rhoddi deial haul.

Mae'r arysgrif sydd arni sef o'r 5/6edG. yn arbennig ac anghyffredin

MELI MEDICI / FILI MARTINI IACIT.

'Melus y meddyg, mab Martinus sy'n gorwedd yma.'

Mae rhoi gwybodaeth am swydd ar garreg goffa o'r cyfnod hwn yn anghyffredin iawn. Mae'n rhoi gwybodaeth am drefniant cymdeithasol y cyfnod a hon yw'r unig garreg yn ngwledydd Prydain y gwyddom amdani sy'n cyfeirio at 'feddyg'.

Mae'r arysgrif Ladin sy'n darllen ar i lawr fel llythrennu Ogam o lwerddon yn dangos cymysgedd o draddodiadau a dylanwadau'r Gwyddelod a'r Cymry.

## Cerrig Penprys, Plas Glyn y Weddw Llanbedrog (SH329314)



**Cyfarwyddiadau:** ~~Dynia Penprys~~ **Dynia Penprys** yn **Oriel Glyn y Weddw** oddi ar A499 (Pwllheli i Abersoch)

**Maent i'w gweld wrth ddrws ffrynt Oriel Glyn y Weddw.**

Cawsant eu darganfod mewn bedd rhwng dau faen hir yn nghae Tir Gwyn, Llannor (SH 34403910). Arysgrif i goffâu VENDESELT (Gwynhoedl) a IOVENALIS (mab Eternus – ffurf ar Edern).

Adroddodd Syr Love Jones-Parry, Madrun yn 1847 mai corff dyn 7 troedfedd (2.13m) o daldra oedd yn y bedd. Cafodd y cerrig eu symud i Amgueddfa Ashmolean yn Rhydychen yn niwedd y 19yddG. a thrwy berswâd Cyfeillion Llŷn maent wedi dychwelyd i Llŷn.

Mae'r arysgrif Lladin ar un garreg o'r 5ed i'r 7fedG. yn cyfleu dylanwad Rhufeinig er na chafodd Llŷn ei goresgyn ganddynt.

Mae IOVENALI FILI / ETERNI / HIC IACIT

yn coffâu Iovenalis, mab Eternus.

Mae'n debyg i'r pentref Edern gael ei enwi ar ei ôl.

Yr enw VENDESTL sydd ar y garreg arall. Dyma Gwynhoedl nawddsant eglwys Llangwnnadr ac mae arysgrif yn nodi mai yno y cafodd ei gladdu. Tybed a gafodd y garreg hon ei symud o Langwnnadr i Dir Gwyn, Llannor? Tybed oes cysylltiad rhwng yr elfen 'gwyn' yn Tir Gwyn a Gwynhoedl?



### Dilynwch y Stori..

Darganfyddwch fwy am fannau sanctaidd trwy ymweld âg Eglwys Llanengan – Lleoliad pwysig ar Lwybr Pererinion y De. Fe'i sefydlwyd gan Einion, Brenin Llŷn a roddodd dir ar Ynys Enlli i Gadfan adeiladu mynachlog.